

LLANFAIR YN NEUBWLL COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Ychwanegol y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Iau 7fed Chwefror 2019.

Presennol: Cyng. Beryl Salisbury (Cadeirydd)
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Gordon Owen
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Sharon Wyn Parry
Cyng. Dyfed Williams

1. Agorodd Cyng. Salisbury y cyfarfod wrth groesawu aelodau o'r cyhoedd i'r cyfarfod a chyflwynodd Mr. Mike Rutgers (Pennaeth Datblygu) o Low Carbon Ltd. a wahoddwyd i ddod i siarad â'r Cyngor ynghylch y cynnig ar gyfer Ffermydd Solar.

Eglurodd na chaniateir aelodau o'r cyhoedd i siarad yng nghyfarfodydd y cyngor fel rheol ond roedd hi wedi gwneud amser i'r sesiwn yma cyn cyfarfod y Cyngor Cymuned.

Ni chaniatawyd i'r sesiwn gael ei recordio.

- 1.1 Eglurodd Mr Rutgers fod y cynnig yn ei gamau cynnar ac mai pwrpas y cyfarfod hwn oedd sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r hyn sydd dan sylw fel nad oedd yna gamddealltwriaeth.

Nodwyd y pwyntiau allweddol fel a ganlyn:

Roedd y cynnig cychwynnol am saith o safleoedd solar, dau ohonynt yn ardal Cyngor Cymuned Llanfair yn Neubwll, a'r gweddill yn ardaloedd Bryngwran a Bodedern.

Anfonwyd map safle gyda'r llythyr cychwynnol i bartïon â diddordeb ond nodwyd ei fod yn cynnwys parcel o dir wrth Cymunod nad oedd yn rhan o'r cynnig. Roedd hyn wedi'i gywiro bellach.

Roedd y cynigion o fewn yr ardaloedd gwaith a amlinellir ar y map ond gallai fod rhywfaint o symudiad o fewn yr ardaloedd hynny.

- 1.2 Cynhaliwyd ymgynghoriadau gyda pherchnogion a'r bwriad fyddai cael trefniant masnachol 40 mlynedd gyda'r tiffeddianwyr hynny.

Bydd ymgynghoriad yn digwydd gyda'r Cyngor Sir, Cynghorau Cymuned, trigolion lleol, y Llu Awyr, RSPB, Cyfoeth Naturiol Cymru, archeolegwyr, ecolegwyr ayyb.

Roedd y cwmni wedi sefydlu tudalen we i ddarparu gwybodaeth a mynediad i'r ddogfen cyn-ymgeisio cynllunio (dogfen 35 tudalen). Byddai unrhyw newidiadau perthnasol yn ymddangos arno.

Ni chafwyd ymateb gan y Llu Awyr hyd eto ond nodwyd bod ffermydd solar wedi'u gosod wrth ymyl meysydd awyr yn fyd-eang.

Bydd peirianwyr cymwys yn ymgynghori â'r Cyngor Sir ar faterion trafndiaeth, gan gynnwys rhwydweithiau ffyrdd, llwytho ar bontydd ac ati.

- 1.3 Mae'r ffactorau a ystyriwyd wrth benderfynu ar y cynigion yn cynnwys agosrwydd i'r rhwydwaith i gymryd y pŵer, yr orsaf bŵer bresennol yng Nghaergrawni a'r ffaith bod gan Ynys Môn yr ymbelydredd solar uchaf yn y wlad.
Byddai ceblau tanddaearol yn cysylltu'r safleoedd â'r grid.(Roeddent wrthi yn ymgynghori â pherchnogion tir ar hyn)

Disgwylir i'r allbwn pŵer allforio fod yn 50MW.

- 1.4 Roedd yn anodd gwybod ar hyn o bryd sawl eiddo fyddai'n cael ei effeithio, ond fe fydd profion gweledol a'r gallu i dirlunio pe bai effaith weledol.

Byddai pob safle yn cael ei ddiogelu gyda ffens ceirw, synwryddion a camerâu CCTV.

Byddai'r safleoedd yn parhau i fod yn addas ar gyfer pori defaid.

Ni fyddai unrhyw effaith ar y llwybrau cyhoeddus

- 1.5 Byddai gwaith adeiladu yn cael ei wneud gan gwmni adeiladu mawr gyda gwybodaeth a phrofiad arbenigol o brosiectau ffermydd solar. Byddai'r cwmni'n cynnal proses archwilio trwyadl a rhagwelir y byddai cwmnïau lleol yn gwneud gwaith sifil. Fe'u hanogwyd i roi eu henwau ymlaen i'w hystyried gan y prif gwmni.

Roedd yn annhebygol y byddai swyddi parhaol llawn amser yn cael eu creu ond bydd angen pobl i wneud gwaith cynnal a chadw gweithredol (ffensio, glanhau, diogelwch ac ati)

- 1.6 Byddai amrywiaeth o fecanweithiau yn cael eu defnyddio i osod y paneli ar fframwaith a pholion dur galfanedig fydd yn cael eu gyrru i'r ddaear. Bydd arbenigwyr yn archwilio anhyblygedd a chyfansoddiad y pridd er mwyn penderfynu ar faint y llwytho (load bearing) ac ati. Fe gyhoeddir y manylion llawn gyda'r adroddiad dylunio.

Roedd y paneli yn debygol o gael eu cynhyrchu dramor ond byddai cyrchu'r dur yn seiliedig ar ansawdd a phris gorau.

- 1.7 Byddai ceisiadau cynllunio yn cael eu gwneud am gyfnod o 40 mlynedd. Gellid gwneud cais pellach ar ôl hynny (dylai'r paneli fod yn gweithio 80 i 85% yn effeithlon erbyn hynna) neu byddai'r safle'n cael ei ddigomisiynu. Byddai'r holl drefniadau masnachol gyda'r tiffeddianwyr yn cynnwys bond digomisiynu. Ni ragwelir problem gyda hyn oherwydd bod gwerth sgrap y deunyddiau yn uchel iawn.

- 1.8 Trefnwyd cyfarfod gyda'r Cyngor Sir i drafod y posibilrwydd o gael budd cymunedol.
- 1.9 Roedd arolygon yn awgrymu bod 84% o bobl yn cefnogi ynni'r haul ac nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod ffermydd solar yn effeithio ar dwristiaeth.
- 1.10 Ystyriwyd bod y bwriad yn Ddatblygiad o Bwys Cenedlaethol ac felly Arolygydd Cynllunio (PINS Cymru) fydd yn ymdrin â'r cais. Bydd y datblygwyr yn rhoi gwybod i'r Arolygydd Cynllunio eu bod yn bwriadu gwneud cais cynllunio ar 1 Ebrill 2019. Bydd y cwmni'n ymgynghori â pherchnogion, cyngorau a phartïon eraill sydd â diddordeb am gyfnod o chwe wythnos ar ôl hynna a chyn cyflwyno'r cais.

Ni ellir newid y cais ar ôl iddo gael ei gyflwyno.

Bydd yr Arolygydd Cynllunio yn cynnal eu proses ymgynghori ffurfiol wedyn.

1.11 **Crynodeb o'r pryderon:**

Effaith weledol

Gormod o safleoedd yn yr un ardal.

Effaith ar breswylwyr uniongyrchol a dibrisiant eiddo

Effaith ar y gymuned

Effaith ar dir ffermio

Effaith y gwynt a sut y delir â'r risg hwn

Mae adeiladau rhestredig / adeiladau hynafol yno ac mae o fewn AHNE a SSI

Newidiadau mewn ecoleg o dan y paneli

Effaith ar dwristiaeth

Effaith ar ffyrdd a llwybrau cyhoeddus

Iechyd a Diogelwch

Ni fyddai budd cymunedol yn gwneud iawn am yr effaith negyddol ar breswylwyr.

1.12 Cysylltwch â'r Wefan am ragor o wybodaeth:

www.parcsofolartraffwll.co.uk

Cychwynodd Cyfarfod y Cyngor Cymuned am 8.20yh.

2. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Einir Thomas

3. **Datganiad o ddiddordeb – dim**

4. **Cofnodion cyfarfod diwethaf i'w cyflwyno ar 19 Chwefror 2019**

5. **Materion yn codi 7 Chwefror 2019**

1. Cae chwarae – Roedd MacVenture Playgrounds wedi cwblhau'r gwaith ar y cae chwarae.

2. Hen Ysgol Caergeiliog - roedd Cyng. Gordon Owen yn fodlon edrych ar y dogfennau a gyflwynwyd i'r clerc cyn i'gwneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen.

6. **Deddf Gynllunio Gwlad a Thref**

6.1 Ceisiadau Cynllunio

FPL/2019/16 ANGLESEY AIRPORT, ROYAL AIR FORCE, MINFFORDD ROAD, CAERGEILIOG, HOLYHEAD, LL65 3NX

Cais llawn ar gyfer dymchwel y fens presennol ynghyd a chodi fens newydd – dim gwrthwynebiad.

7. **Gohebiaeth**

Gwahoddiad i gyfarfod 'No to Traffwll Solar' 7.30y.h. Nos Wener 8 Chwefror 2019 yn Hotel Valley.

8. **Unrhyw fater arall - dim**

9. **Cyfarfod nesaf 19 Chwefror 2019.**